NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae colli plentyn yn sefyllfa annioddefol o boenus nad yw unrhyw riant yn gallu meddwl sut y byddai'n ymdopi â hi. Rydym yn cydnabod bod ymdrin â materion ariannol tra eich bod yn ceisio ymdopi â'r emosiynau sy'n gysylltiedig â sefyllfa o'r fath yn anodd o dan unrhyw amgylchiadau.

Yng Nghymru, nid yw awdurdodau lleol yn codi unrhyw ffioedd am wasanaethau claddu neu amlosgi ar gyfer plant o dan 18 oed. Hefyd, mae gan deuluoedd yng Nghymru, sydd wedi cofrestru colli plentyn o dan 18 oed, yr hawl i gael £500 fel cyfraniad tuag at gostau'r angladd a chostau perthnasol eraill.

Mae pob teulu yn gallu penderfynu sut mae am wario'r arian. Nid yw'r math o gostau'n gyfyngedig, ond gallent gynnwys arch, amdo, casged, neu unrhyw fath o orchudd arall; llestr ar gyfer cadw'r llwch; talu costau'r sawl sy'n trefnu'r angladd (gan gynnwys ffioedd y trefnydd angladdau); cerbydau'r angladd; blodau; hysbysiadau am y farwolaeth; symud dyfeisiau meddygol; ffioedd ar gyfer tystysgrifau meddygol a thystysgrifau cofrestru marwolaeth; cofebau, placiau; a cherrig beddau. Bydd y taliad yn cael ei wneud i'r sawl sy'n cofrestru'r farwolaeth, oni bai bod enw arall yn cael ei ddarparu.

Bydd swyddfa Cofrestrydd yr awdurdod lleol yn trafod hyn gyda theuluoedd pan fyddant yn cofrestru'r golled a gallant roi rhagor o fanylion iddynt.

Mae'n bosibl hefyd y bydd gennych hawl i wneud cais am daliad costau angladd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (**https://www.gov.uk/funeral-payments/how-to-claim**) os ydych yn cael budd-daliadau penodol neu gredydau treth.

Cymorth emosiynol

Mae'r profiad o golli rhywun a'r ffordd yr ydym yn ymateb iddo yn fater personol iawn. Mae'n bwysig cydnabod y gallai fod angen cymorth a chefnogaeth arnoch. Mae nifer o gymdeithasau sy'n cynnig cymorth i deuluoedd pan fo babi neu blentyn o unrhyw oed yn marw.

Child Bereavement UK – **https://www.childbereavementuk.org/** (0800 028 8840)

Winstons Wish – **https://www.winstonswish.org/** (08088 020 021)

2 wish upon a star – **https://www.2wishuponastar.org/** (01443 853125)

Cruse Bereavement Care – **https://www.cruse.org.uk/** (0808 808 1677)

Bereavement Advice Centre – **https://www.bereavementadvice.org/** (0800 634 9494)

Good Grief Trust – **https://www.thegoodgrieftrust.org/**

Samaritans – **https://www.samaritans.org/samaritans-cymru/** (116 123)

Sands – **https://www.sands.org.uk/** (0808 164 3332)

Tommy's – **https://www.tommys.org/about-us** (020 7398 3400)

Sandy Bear Children's Bereavement Charity – **https://www.sandybear.co.uk/** (01437 700272)

Bliss – **https://www.bliss.org.uk/parents/support**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42127